

*Mae'r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol annibynnol ym maes addysg a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon i gefnogi ein hagenda gwella ysgolion. Sefydlwyd y BDAC i roi cyngor ac arweiniad ar gyfleu'r weledigaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth yng Nghymru a'r cynlluniau i gyflawni'r weledigaeth drwy'r system addysg gyfan yng Nghymru. Mae'r BDAC yn cynnwys penaethiaid profiadol ac ymarferwyr lefel uwch eraillsy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad o ddatblygu capasiti arweinyddiaeth o fewn y system ysgolion. Byddant yn cyfrannu i sicrwydd bod y mentrau sy'n gysylltiedig â datblygu arweinyddiaeth yn addas at y diben a'u bod yn diwallu anghenion y proffesiwn yng Nghymru.*

## **Cwestiynau i Lywodraethwyr i ofyn i'r Pennaeth/y tîm arwain fel rhan o'u rôl i gefnogi a herio**

Rhan hanfodol o rôl llywodraethwyr ysgol yw rhoi cymorth effeithiol i'r pennaeth a'r uwch arweinwyr a'u herio. Er mwyn helpu llywodraethwyr i wneud hynny, mae'r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol (NLDB) wedi paratoi'r cwestiynau allweddol a ganlyn i lywodraethwyr eu defnyddio. Mae gan y Bwrdd ddigon o brofiad yn y maes hwn gan ei fod yn cynnwys aelodau sy'n bennaethiaid llwyddiannus ar hyn o bryd a phobl broffesiynol eraill yn y byd addysg.

Rydym yn defnyddio 'ni' yn y cwestiynau hyn yn fwriadol i danlinellu'r ffaith bod y llywodraethwyr yn rhan annatod o'r ysgol.

Isod, mae cwestiynau cychwynnol a ddylai arwain at gwestiynau dilynol gan ddibynnu ar yr atebion a geir i sicrhau atebolrwydd e.e.

- Beth rydym yn ei wybod?
- Sut rydym yn gwybod hyn?
- Sut rydym yn monitro hyn?
- Pa effaith y mae hyn wedi'i chael?
- Pa gynlluniau sydd ar waith i wella hyn?
- Pryd y byddwn yn adolygu'r rhain?
- Pwy sy'n gyfrifol am hyn?

### **Safonau**

- Sut y mae niferoedd disgyblion yn cael eu hadlewyrchu fel canrannau – beth yw gwir nifer y disgyblion dan sylw?
- Pa mor uchel yw safonau yn yr ysgol? Sut rydym yn gwybod?
- A yw'n disgyblion yn perfformio cystal â'r disgwyl, yn well na'r disgwyl neu'n waeth na'r disgwyl?
- A yw'r canlyniadau hyn yn well na chanlyniadau'r llynedd?
- A oes unrhyw beth y dylem ei wybod am gohort y disgyblion a allai effeithio ar y canlyniadau?
- Sut y caiff cyrhaeddiad ei ddadansoddi a'i werthuso? Pa effaith gaiff hyn ar safonau?
- Beth yw'r tueddiadau yn y dangosyddion allweddol yn y Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3 / Cyfnod Allweddol 4 / Cyfnod Allweddol 5 dros y 3/4 blynedd diwethaf?
- A oes tuedd i'w gweld mewn rhai pynciau penodol? Os felly, pa strategaethau y gallwn eu rhoi ar waith i wella canlyniadau yn y meysydd hynny?
- Ym mha feysydd dysgu / pynciau ydym ni'n perfformio orau yn y Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3 / Cyfnod Allweddol 4 / Cyfnod Allweddol 5?
- Pa bynciau/meysydd sy'n peri pryder yn y Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3 / Cyfnod Allweddol 4 / Cyfnod Allweddol 5?
- Beth yw'r darlun o ran yr elfen 'gwerth ychwanegol'?
- Sut rydym yn cymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gallu hawlio Prydau Ysgol am Ddim (PYDd)? Beth yw'n chwarteli meincnod ar gyfer pob dangosydd?
- Sut rydym yn cymharu ag ysgolion eraill ein teulu?
- Sut y mae'r bechgyn yn perfformio o'u cymharu â'r merched? Sut y mae'r bechgyn yn perfformio o'u cymharu â bechgyn mewn ysgolion tebyg?

- Sut y mae'r disgyblion PYDd / Anghenion Dysgu Ychwanegol / Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn perfformio o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg?
- Sut y mae'n disgyblion Mwy Galluog a Thalentog yn perfformio o ran cyrraedd y lefelau uwch o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg?
- Sut y mae grwpiau eraill o ddisgyblion yn perfformio o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg? (gan ddibynnu ar gyd-destun yr ysgol mae'n bosibl y bydd y llywodraethwyr am herio'r ysgol ynglŷn â pherfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion e.e. Saesneg fel Iaith Ychwanegol; Sipsiwn/Teithwyr; lleiafrifoedd ethnig ...)
- Sut y mae'r grwpiau hyn yn perfformio dros gyfnod?
- Sut y gallwn ddangos ein bod yn 'ychwanegu gwerth' yn gyson o fewn grwpiau blwyddyn ac yn y gwahanol gyfnodau?
- Beth yw effaith yr ymyriadau amrywiol a ddefnyddir yn yr ysgol? A ydynt yn cynnig gwerth am arian?

## Sgiliau

- Beth yw safonau llythrennedd y disgyblion, yn enwedig darllen ac ysgrifennu, a safonau rhifedd a TGCh?
- A yw'r gwaith ar draws y cwricwlwm yn cyd-fynd â'r safonau yn yr asesiadau diwedd cyfnod a'r profion cenedlaethol?
- I ba raddau rydym ni'n cynllunio i ddatblygu sgiliau Cymraeg ein disgyblion?
- Beth yw safon sgiliau Cymraeg ein disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3/4?
- Sut rydym yn cymharu ag ysgolion tebyg - yn y teulu ac yn ein grŵp PYDd?
- Pa ganran o'n disgyblion sy'n astudio cwrs Cymraeg llawn (pob ysgol) / Cymraeg iaith gyntaf (ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwyieithog) / Cymraeg ail iaith (ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg)

## Lles

- I ba raddau y mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion?
- Beth yw lefelau absenoldeb cyffredinol yr ysgol?
- A oes unrhyw beth wedi digwydd yn ystod y tymor i effeithio ar ffigurau presenoldeb e.e. tywydd garw, achosion o salwch?
- Beth yw'r ffigurau presenoldeb ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf?
- Sut y mae presenoldeb yn yr ysgol yn cymharu â'r rhagolygon ar gyfer y tair blynedd diwethaf?
- A ydym wedi gwella, wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu? A oes patrwm/tuedd yn ymddangos yn y ffigurau?
- Sut y mae'n presenoldeb yn cymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod?
- A ydym wedi dadansoddi presenoldeb gwahanol grwpiau o ddisgyblion? Sut y mae'r rhain yn cymharu?
- Pwy yw'r disgyblion sy'n absennol yn gyson? A ydym wedi cymryd camau i sicrhau bod eu presenoldeb yn gwella?
- Pa strategaethau rydym ni'n eu defnyddio i wella presenoldeb neu i sicrhau presenoldeb da?
- Pe baem yn diystyru'r 5 disgybl sy'n absennol amlaf, sut fyddai hynny'n effeithio ar y ffigurau?
- Sut y mae'n disgyblion yn ymddwyn? Sut y mae nifer y disgyblion rydym wedi'u gwahardd yn cymharu ag ysgolion eraill? Beth yw'r duedd o ran gwahardd disgyblion am gyfnodau penodol dros y tair blynedd diwethaf? A ydym wedi dadansoddi faint o ddisgyblion o wahanol grwpiau a gafodd eu gwahardd? Sut y mae'r rhain yn cymharu? Pa strategaethau rydym ni'n eu defnyddio i wella unrhyw duedd negyddol neu i barhau ag unrhyw drwydydd cadarnhaol?
- Pa mor effeithiol yw ein strategaethau i roi llais i'n disgyblion? Sut y maent yn effeithio ar yr hyn y maent yn ei ddysgu?

## Profiadau dysgu

- Beth yw nodweddion da'r cwricwlwm?
- Beth yw ffaeiddau'r cwricwlwm?
- A yw'r cwricwlwm yn diwallu anghenion pob un o'n disgyblion? A oes unrhyw rwystrau o ran cydraddoldeb neu o ran sicrhau mynediad i'r cwricwlwm?
- I ba raddau rydym yn llwyddo i gynnig dewisiadau sy'n diwallu anghenion pob un o'n dysgwyr?

- Sut rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu’u sgiliau llythrennedd, yn enwedig darllen ac ysgrifennu, a’u sgiliau rhifedd, ym mhob pwnc? I ba raddau rydym yn datblygu sgiliau TGCh ein disgyblion? Beth yw safon yr addysgu o ran datblygu a chadarnhau’r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm?
- I ba raddau rydym wedi llwyddo i roi’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith? Beth ddywedodd adroddiad ein Partner Cymorth Cenedlaethol wrthym am ein darpariaeth / arweinyddiaeth / safonau?
- ganlyniad, beth yw safonau’r disgyblion ym maes llythrennedd, yn enwedig darllen ac ysgrifennu, ac ym maes rhifedd?
- I ba raddau rydym yn llwyddo i ddatblygu sgiliau ehangach ein disgyblion – sgiliau meddwl, datrys problemau, gweithio gydag eraill, gwella’u dysgu a’u perfformiad eu hunain?
- I ba raddau mae’r ysgolion yn llwyddo i gyflwyno agweddau amrywiol ar y Cwricwlwm Cymreig?
- Beth yw safonau’n disgyblion o ran sgiliau meddwl / datrys problemau?
- I ba raddau rydym yn llwyddo i gynllunio i feithrin dealltwriaeth ein disgyblion o ADCDF? Pa ran sydd gan y disgyblion yn y broses o ddatblygu’r agweddau hyn drwy’r ysgol?
- Sut rydym yn gwybod a ydym yn cynnig profiad gwaith / cyngor o safon ynghylch gyrfaoedd i hybu ymgysylltiad pobl ifanc ac i’w helpu i symud ymlaen.

## Addysgu

- Beth yw safon yr addysgu yn yr ysgol? Sut rydym yn gwybod? Beth rydym yn ei wneud i sicrhau bod yn addysgu’n dda neu’n gwella? Beth yw canfyddiad ein disgyblion o’r ysgol?
- ganlyniad, i ba raddau y mae’n disgyblion yn dangos cynnydd yn eu gwersi? A oes unrhyw ddsbarthiadau / grwpiau blwyddyn / pynciau sy’n peri pryder? Sut rydym yn monitro’r rhain ac yn eu gwella?
- Sut rydym yn gosod targedau i ddisgyblion ac yn mesur eu cynnydd? Pa mor effeithiol yw hyn?
- Beth yw disgwyladau’r athrawon o ran asesu, cofnodi a pharatoi adroddiadau?
- Pa hyfforddiant sydd ar gael i’r holl staff i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu, gan gynnwys cymorth penodol i wella llythrennedd a rhifedd?
- Pa mor gyson yw Asesu ar gyfer Dysgu drwy’r ysgol? A yw dysgwyr yn cael adborth da ac yn llwyddo i adeiladu arno?
- Sut rydym yn gwybod bod ein hasesiadau ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn gywir?
- Beth yw canfyddiadau’r athrawon? A ydym yn rheoli problemau’n ymwneud ag absenoldeb/gallu athrawon yn effeithiol? Sut rydym yn gwybod a yw aelodau eraill o staff yn y dosbarth yn effeithio ar safonau?

## Gofal, cymorth ac arweiniad

- I ba raddau rydym yn llwyddo i hybu iechyd a lles ein disgyblion, gan gynnwys bwyta a byw’n iach? Pa drefniadau sydd ar waith? Sut rydym yn monitro cynnydd?
- Pa ddarpariaeth sydd ar gyfer disgyblion llai a mwy galluog? Sut rydym yn monitro hyn? Pa mor effeithiol yw’r ddarpariaeth hon?
- Pa hyfforddiant a gynigir i’r staff ar nodi a diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ein disgyblion?
- Pa hyfforddiant a gynigir i’r staff ar faterion Amddiffyn Plant? Sut y caiff y materion hyn eu cofnodi? A yw’n gweithdrefnau’n ddibynadwy? Sut rydym yn gwybod? A yw’r holl oedolion yn yr ysgol yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant hwn?
- Pa mor ddiogel yw’n safle a’n hadeiladau? Sut rydym yn gwybod?

## Yr amgylchedd dysgu

- Pa mor effeithiol ydym ni o ran hyrwyddo ethos cynhwysol, goddefgarwch hiliol, cyfle cyfartal ac amrywiaeth? A yw’r holl staff wedi cael yr hyfforddiant priodol ym maes cyfle cyfartal? Sut rydym yn cofnodi ac yn monitro problemau neu gwynion sy’n codi?
- Beth yw’r blaenoriaethau presennol ar gyfer adeiladau ac adnoddau? A yw’r disgyblion yn cytuno? Pa gynlluniau sydd ar waith i gyflawni’r blaenoriaethau hyn?

## Arweinyddiaeth

- Beth yw’n gweledigaeth ar gyfer yr ysgol?
- Sut y mae’n hamcanion, ein nodau strategol a’n cynlluniau’n diwallu anghenion ein disgyblion? Sut y caiff y rhain eu monitro?

- I ba raddau rydych chi'n llwyddo i drosglwyddo'r disgwyliadau hyn i holl staff yr ysgol?
- Pa mor effeithiol yw'r modd y caiff yr ysgol, a'r timau o fewn yr ysgol, eu rheoli? Pa mor effeithiol yw'r broses o fonitro gwaith y timau hyn?
- Pa mor effeithiol ydych chi o ran herio, a chynorthwyo staff i wneud cystal ag y gallant drwy reoli perfformiad?
- Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth ac adnabod talent?
- Sut y mae'r arweinyddiaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ysgol?
- A oes unrhyw broblemau o ran tangyflawni? A ydych wedi mynd i'r afael â'r rhain? Pa strategaethau sydd ar waith i herio a chynorthwyo'r aelodau hyn o staff?
- Beth yw'n blaenoriaethau lleol a chenedlaethol? Pa mor effeithiol ydym ni o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn?

## Gwella ansawdd

- Beth yw cryfderau a gwendidau'r ysgol?
- I ba raddau rydym yn llwyddo i adolygu pob agwedd ar fywyd yr ysgol? Pa mor aml fyddwn ni'n arsylwi gwersi? Pa mor aml fyddwn ni'n craffu ar waith y disgyblion ac asesiadau athrawon?
- A yw'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio gyda'i gilydd ac eraill i sicrhau cysondeb o ran safonau?
- I ba raddau rydym ni'n gwrando ar farn y disgyblion, y rhieni a rhanddeiliaid allanol e.e. yr awdurdod lleol, y consortiwm, y gymuned, darparwyr eraill...? Beth yw effaith hyn ar yr addysgu a'r dysgu, ac ar reolaeth a darpariaeth?
- Pa mor aml rydym yn adolygu gwaith yr adrannau / grwpiau blwyddyn, a pha mor effeithiol yw'r broses?
- ganlyniad, beth yw blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella? A yw'r rhain yn seiliedig ar y broses hunanarfarnu? Pa mor effeithiol yw'n gwaith o fonitro a gwerthuso cynnydd o'i gymharu â'r blaenoriaethau? Pa welliannau a ddeilliodd o hyn?
- Pa mor effeithiol yw ein cynlluniau i sicrhau'r newidiadau hyn? Pa gamau ac adnoddau a faint o amser sydd eu hangen i'w sicrhau? Sut rydym / y byddwn yn monitro'r rhain?
- A yw'r holl adrannau'n deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella? Pa adrannau / grwpiau blwyddyn sy'n perfformio orau neu sy'n peri pryder?
- I ba raddau y mae ein cydlynwyr bugeiliol / dysgu (penaethiaid blwyddyn / dysgu) yn llwyddo i werthuso'u gwaith a chynllunio i wella'r ddarpariaeth er mwyn codi safonau?
- Sut y mae hyn yn effeithio ar safonau disgyblion?

## Gweithio mewn partneriaeth

- Pa bartneriaethau strategol sydd gennym?
- Sut rydym yn gweithio gyda'r holl bartneriaid hyn i gynllunio, i reoli ac i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth?
- Pa effaith gaiff y partneriaethau hyn ar safonau a lles y disgyblion?
- A allwn ni feithrin perthynas gryfach ag ysgolion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn llwyddo i ymgysylltu ag ysgolion eraill i godi safonau?

## Rheoli adnoddau

- Sut rydym yn cynllunio ac yn monitro'r broses o reoli'n hadnoddau, yn enwedig datblygiad staff? A yw'r holl staff yn cael eu defnyddio i ddysgu eu pynciau arbenigol? Sut rydym yn cynorthwyo'r staff i ddysgu'r pynciau nad ydynt yn arbenigo ynddynt?
- Pa gyfleoedd sydd ar gael i staff feithrin sgiliau dysgu a rheoli? Pa Gymunedau Dysgu Proffesiynol y mae'r staff yn rhan ohonynt yn yr ysgol a'r tu allan iddi? Pa effaith gaiff y rhain ar safonau a lles?
- A ydym yn gweithio gyda'r ysgolion yn ein teulu i wella safonau?
- A allem gydweithio ag ysgolion yn ein teulu sy'n cyrraedd safonau uchel mewn rhai dangosyddion / deilliannau?
- Pa effaith gaiff y rhain ar safonau disgyblion?
- Sut rydym yn blaenoriaethu'n gwariant i sicrhau bod pethau'n gwella dros gyfnod?
- Pa effaith gaiff y modd y byddwn yn gwario'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar berfformiad disgyblion?